## Digwyddiadau Ar-lein i Ddod:




## Newyddion gan y Tîm:

Mae'r tîm Cefnogi'r Argyfwng Costau Byw yn Un Llais Cymru wedi bod yn gweithio'n galed yn cynllunio digwyddiadau a datblygu adnoddau i gefnogi eich cynghorau. Yn y diweddariad Hydref hwn, rydym yn falch iawn o rannu manylion am ein gweminarau a grwpiau trafod ar-lein a gynhelir cyn bo hir. Rhoddwn sylw hefyd i fenter Clwb Cyfeillio Ffilm Cyngor Tref Blaenafon, ynghyd â diweddariadau ac adnoddau cyffredinol eraill sydd ar gael i'w defnyddio gan eich cynghorau.

## Digwyddiadau Ar-lein i Ddod:



**GWEMINAR:**

### Ymgysylltu a Gwasanaethau Pobl Hŷn

**27 Medi: 10.30am – 12.30pm**

Bydd cynrychiolydd o Swyddfa'r Comisiynydd Pobl Hŷn yn trafod eu gwaith a sut y gall cynghorau gefnogi eu trigolion hŷn y gaeaf hwn. Yn ogystal, bydd sawl cyngor yn rhannu eu strategaethau ar gyfer ymgysylltu a chefnogi eu cymunedau gyda gweithgareddau sy'n rhoi sylw i'r henoed.

**Dolen Zoom ar gyfer y Weminar**

Cofrestrwch (os mynnwch)

---

### GRŴP TRAFOD AR-LEIN:

**Ariannu, Grantiau a Phennu'r Praesept**

**Hydref 18fed: 1.30pm-3.00pm**

Bydd Mike Theodoulou, Cadeirydd Un Llais Cymru a Paul Egan, Dirprwy Brif Weithredwr, yn ymuno â ni i drafod sut y gall buddsoddi mewn mentrau costau byw wneud gwahaniaeth cadarnhaol yn eich cymuned.  Byddwn hefyd yn edrych ar ffynonellau cyllid eraill ac yn clywed gan gynghorau sydd wedi mynd ati'n greadigol i ariannu eu mentrau costau byw trwy bartneriaethau gyda mudiadau lleol eraill.

Archebwch Eich Lle

---

## Sylw ar: Cygnor Tref Blaenafon

Ymunwch â ni yng Nghlwb Cyfeillio Ffilm Cyngor Tref Blaenafon, a gynhelir yn Sinema Neuadd y Gweithwyr. Cafodd ei lansio yn 2022, ac mae'r fenter anhygoel hon yn cynnig dangosiadau ffilm a lluniaeth rhad ac am ddim, gan feithrin cysylltiadau cymdeithasol a mynd i'r afael ag unigrwydd, yn enwedig ymhlith pobl hŷn. Gan gynnig dros 20 sesiwn a 50+ o wylwyr ymhob dangosiad, mae'r clwb wedi cael effaith gadarnhaol ar 1,100 o bobl leol, a chynnig man croesawgar i gymysgu, mwynhau ffilmiau o bob math, a chefnogi ei gilydd trwy gyfnodau anodd. Beth am ddarganfod sut mae'r prosiect cymunedol hwn yn mynd i'r afael ag unigedd cymdeithasol a'r argyfwng costau byw.




## Gweler Yr Astudiaethar ein gwefan

ASTUDIAETH ACHOS

---




## Y Fforwm Argyfwng Costau Byw

Gofod cydweithredol i Gynghorau Cymuned a Thref rannu arfer gorau, gofyn cwestiynau, a chael help a chyngor ar faterion sy'n effeithio ar eich cymunedau yn sgil yr argyfwng Costau Byw.

Ymunwch â Ni

---

## Gwyliwch ein Gweminarau Blaenorol:



**Ymgysylltiad a Gwasanaethau Ieuenctid**

Mehefin 2024

Gwyliwch y Recordiad



**Canllaw i Gludiant Cymunedol: Gorff. 2024**

Gorff 2024

Gwyliwch y Recordiad

---

## Siaradwch â'ch cymunedau am......

Credyd Pensiwn

Mae Credyd Pensiwn yn rhoi arian ychwanegol i helpu gyda'ch costau byw os ydych dros oedran Pensiwn y Wladwriaeth ac ar incwm isel.



**Rydym yn gweithio'n agos gyda Chomisiynydd Pobl Hŷn Cymru a roddodd y cyngor hwn i gynghorau.**

"Byddai cael cynghorau tref a chymuned yn sôn am Gredyd Pensiwn mewn newyddlenni, neu, yn bwysig, mewn sgyrsiau â phobl leol, ym mynd ymhell tuag at ledaenu'r gair i bobl hŷn na fyddai efallai yn gwybod y gallent fod yn gymwys i wneud cais am Gredyd Pensiwn. Yn aml, cysylltiadau wyneb yn wyneb yw'r ffordd orau o gael pobl i feddwl am hawlio. Gall mudiadau fel Age Cymru a rhai canghennau o Age Connects hefyd helpu pobl i lenwi'r ffurflenni."

**Dysgu Mwy**

---




## Digwyddiadau'r Gaeaf

Byddwch yn barod am newyddion am ein sesiynau **Cyswllt Cynghorau** a **Gweminarau** dros y misoedd nesaf. Bydd y pynciau y byddwn yn eu trafod yn cynnwys

- **Tanwydd, Gwresogi a Hybiau Cynnes,**
- **Budd-daliadau a Chyllidebu,**
- **Bwyd a'r Nadolig**

---



A Guide to Community Transport

At a glance

Community Transport refers to a variety of transport services provided by non-profits, charities, or local authorities, primarily aimed at supporting the elderly, disabled, or those in remote areas by ensuring access to essential services like healthcare, shopping, and social activities.

Transport Schemes

- **Community Buses** are local bus services run by community groups, often in rural or underserved areas
- **Community Car Schemes** involves volunteer drivers using their own cars to assist those without access to a car or public transport.
- **Hospital Transport** provides transport for patients attending hospital appointments, especially those without other options.
- **Wheels to Work** can help individuals get to work or training through car shares or access to mopeds, bicycles, or cars.
- **Dial-a-Ride** a pre-booked door-to-door transport service.

Find out more about driver training here

Challenges

Community transport is vital in Wales, especially for those who can't access conventional public transport, including the elderly, disabled, and rural residents. Challenges include transport-related poverty, social isolation, environmental impact from reliance on individual vehicles, and the high costs of private transportation, all exacerbated by the cost-of-living crisis.

Solutions

Community transport provides a vital solution by connecting individuals to essential services, reducing social isolation, and offering reliable, eco-friendly transportation options. It serves as a cost-effective, flexible, and community-led alternative to conventional transport, addressing the needs of those who struggle with access and affordability.

Benefits

Community transport promotes social inclusion by improving access to healthcare, education, and employment opportunities. It also enhances environmental sustainability by reducing carbon emissions and contributes to overall well-being by offering accessible and affordable transport solutions.

Key Stages

1. Understand your Community's Needs
   Collect and analyse evidence on current transport provision and community needs. Engage with residents, businesses, and neighbouring areas through surveys, questionnaires, community events or meetings.
2. Create an Action Plan
   Develop a comprehensive budget with costings, funding options, and cashflow projections for the transport service. Create a detailed action plan outlining tasks, deadlines, and responsibilities to track progress and keep the project on course.
3. Seek out Partnership Opportunities
   Contact Community Transport Providers for potential partnerships or solutions, if there are no local options, seek support from the Community Transport Association, or collaborate with neighbouring councils.
4. Funding
   Find out about any grants or funding opportunities that may be available to you.

## Pecyn Trafnidiaeth Gymunedol

Arweiniad cam-wrth-gam cynhwysfawr i sicrhau bod gan eich cynghorau yr wybodaeth, canllawiau a dolenni angenrheidiol i'ch helpu i gychwyn eich taith i mewn i fyd trafnidiaeth gymunedol.

**Dolen i'r Ddogfen Lawn**

---


**One Voice Wales**

24c College Street, Ammanford,
Carmarthenshire
United Kingdom



Unsubscribe



Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government



SENT BY mailerlite